

Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Swyddog Polisi

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **31 Hydref 2017** i:

Tîm Bil y Gymraeg
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

Rhan 1: Hybu'r Gymraeg

Cwestiwn 1 – Ym mharagraffau 49–54, rydym wedi amlinellu'r rôl yr ydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae i hybu'r Gymraeg, h.y. swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol, gan gynnwys p'un a oes meysydd y dylid eu hychwanegu neu eu tynnu o'r rhestr ym mharagraff 53.

Mae'n amlwg fod gan Lywodraeth Cymru rai cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg. Fodd bynnag, dim ond nifer bychan iawn ohonynt sy'n rhai na all ond y Llywodraeth eu hysgwyddo.

Cytunwn fod gan y Llywodraeth rôl yn y cyfrifoldebau isod, er y teimlwn y gellid/dylid rhannu hyd yn oed rhai o'r rhain gyda chorff arbenigol sy'n gyfrifol am y Gymraeg:

- paratoi strategaeth genedlaethol (ar y cyd â chorff arbenigol)
- gosod polisiau cenedlaethol (Llywodraeth yn gorfod gosod, ond corff arbenigol yn gallu bod yn rhan ganolog o'r broses llunio)
- cynnig a chreu deddfwriaeth (ar sail polisiau wedi'u datblygu ar y cyd â chorff arbenigol)
- darparu adnoddau i gefnogi'r Gymraeg (ond ariannu cyrff penodol ar sail argymhellion gan gorff arbenigol)
- cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol â gwledydd ac ardaloedd eraill sydd â phryderon o ran eu hieithoedd lleiafrifol (ond rôl i gorff arbenigol yma hefyd, yn enwedig o ran cynnal y cysylltiadau gyda chyrff hyd braich, trydydd sector, cymdeithas sifig ac ati)
- bod yn atebol i'r Cynulliad (wrth reswm; ond gall corff arbenigol yn ogystal fod yn atebol i'r Cynulliad am ddyletswyddau a ddirprwyir iddo gan y Llywodraeth)

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru:

- sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog wrth lunio polisiau ar draws pob un adran, a bod yr arbenigedd i wneud hynny'n bresennol ar draws y Llywodraeth; hynny yw rhaid i'r Gymraeg fod yng ngwead pob polisi, nid yn gwestiwn atodol (lled symbolaidd) ar derfyn ymgynghoriadau cyhoeddus

Teimla UCAC fod y cynigion yn y Papur Gwyn yn mynd yn sylweddol rhy bell o ran crynhoi cyfrifoldebau yn nwylo'r Llywodraeth, ac y byddai'n fanteisiol i rai ohonynt gael eu hysgwyddo gan gorff arall neu gyrff eraill, gan gynnwys:

- sefydlu trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu'r strategaeth genedlaethol
- monitro perfformiad cyrff sy'n helpu i weithredu'r strategaeth, ac adolygu'r strategaeth o bryd i'w gilydd

Mae sawl rheswm dros ddweud hynny.

Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru, wrth ei natur ddemocrataidd, yn creadur cyfnewidiol. Mae'n bodoli ar ffurf benodol ond am gyfnodau byr - ac, yn nhermau cynllunio ieithyddol, cyfnodau aneffeithiol o fyr. Mae'n anodd cynnal gweledigaeth a phwyslais cyson dros y mathau o gyfnod a fydd yn angenrheidiol i wireddu'r uchelgais a amlinellir, ac yn naturiol, mi fydd blaenoriaethau a gweledigaethau

gwleidyddol yn newid. Mae'n wir hefyd bod personél allweddol cyrff yn newid, ond un ffocws fyddai gan gorff arbenigol, ac ni fyddai'r Gymraeg yn gorfod brwydro am ei lle yn y bydysawd polisi ehangach, fel sy'n anorfod o fewn y Llywodraeth. Tybiwn y byddai'r blaenoriaethau a'r weledigaeth yn llawer mwy tebygol o bara dros amser.

Yn ail, er bod gan Lywodraeth Cymru arbenigedd mewn llunio strategaethau, nid yw wedi profi ei hun o ran ei gallu i'w gweithredu'n effeithiol. Nid yw'r job wedi'i gwblhau unwaith fydd y strategaeth wedi'i lansio.

Yn drydydd, nid yw Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y gwasanaeth sifil, wedi gallu profi bod ganddi'r lefelau angenrheidiol o arbenigedd, a hynny er gwaethaf dau ddegawd o weithredu yn y maes. Nid oes arbenigedd o ran cynllunio ieithyddol yn gyffredinol; o fewn nifer helaeth o adrannau'r Llywodraeth nid yw'r Gymraeg yn ymddangos hyd yn oed ar gyrion eithafol eu radar; ac mewn adrannau ble ddylai fod y Gymraeg yn un o'r ystyriaethau canolog, nid oes na'r ddealltwriaeth o'r sefyllfa wirioneddol ar lawr gwlad, na'r ysfa i'w deall hi i allu gweithredu'n effeithiol.

Mae un o'r enghreifftiau a gynigir o 'swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg', sef 'Datblygu rôl y Gymraeg mewn technoleg' yn enghraifft yn profi'r pwynt. Oes, mae rhinwedd i'r Llywodraeth fod yn rhan o'r drafodaeth gan fod ganddi'r awdurdod a'r statws i weithredu. Ond nid yw fel petai wedi gweithredu yn y maes hyd yma (ble mae'r Gymraeg ar systemau gweithredu ein ffonau symudol – pan mae Basgeg, Catalaneg, Galisieg a Gwyddeleg wedi bod yn opsiynau ers rai blynyddoedd), ac nid hi sydd â'r ddealltwriaeth orau o'r hyn sydd ei hangen ar ddefnyddwyr.

Yn olaf, mae ymdeimlad cryf o'r 'tŵr ifori' yn perthyn i'r Llywodraeth. Nid yw'n ddigon 'agos at y bobl' i allu ymgymryd â'r rôl yn effeithiol, o ran deall yr anghenion, nac o ran cyfathrebu'n effeithiol ar lawr gwlad. Ni fyddai'n fuddiol i ffyniant a dyfodol y Gymraeg gael ei gysylltu'n rhy agos, yn y canfyddiad cyhoeddus, gyda'r sefydliadau amlwg Llywodraethol eu natur.

Gan hynny, ni theimlwn mai'r Llywodraeth fyddai'r corff fwyaf priodol ac effeithiol i ysgwyddo'r dasg, yn sicr dros y tymor hir, er gwaetha'r ewyllys da a diffuant ar hyn o bryd. Ni ddylem adael i naifrwydd ac optimistiaeth wleidyddol ein harwain i greu strwythurau na fyddant yn wirioneddol effeithiol dros y Gymraeg at y dyfodol.

Cwestiwn 2 – Yn Nhabl 1, rydym wedi amlinellu'r adnoddau mewn perthynas â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg yr ydym o'r farn y dylent fod ar gael i unrhyw gorff neu gyrff sy'n helpu yn y gwaith o hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n anodd iawn mynegi barn am hyn heb (1) fod penderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch yr union drefniadau sefydliadol a dyraniad swyddogaethau (2) wybod pa swyddogaethau a chyllidebau eraill sydd i barhau o fewn y Llywodraeth a sut maent yn cydgysylltu.

Mae'r symiau unigol a ddangosir a'r cyfanswm yn edrych yn fach iawn yng nghydestun y gwaith sydd i'w wneud a'r heriau sydd i'w wynebu.

Cwestiwn 3 – A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffefrir gennym (Opsiwn 4), sef un corff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Os ydych yn anghytuno, nodwch pa opsiwn (gan gynnwys opsiynau nad ydym wedi'u trafod yn y Papur Gwyn) y dylem ei ystyried yn eich barn chi.

Sylwadau ategol

Opsiwn 1: ni fyddai UCAC am weld y sefyllfa bresennol yn parhau gyda'r cyfrifoldebau hybu a hyrwyddo, gan fwyaf, yn nwylo'r Llywodraeth. Yr unig ffordd o gyfiawnhau'r opsiwn hwn fyddai'r model a ddisgrifir ym mharagraff 65, sef trosglwyddo cyfrifoldebau hybu a hyrwyddo ynghyd â chyllid priodol i Gomisiynydd y Gymraeg, gydag unrhyw addasiadau fyddai eu hangen i drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd (ni fyddem yn gweld yr addasiadau hyn yn orchwyl anorchfygol, fel yr awgryma'r Papur Gwyn).

Opsiwn 2: gwrthwyneba UCAC yr opsiwn hwn; os am gael corff arbenigol ag annibyniaeth oddi ar y Llywodraeth, nid yw Asiantaeth o'r math hwn yn mynd i allu cyflawni'r gofynion.

Opsiwn 3: mae'r opsiwn hwn yn un atyniadol, gan ei fod yn dirprwyo'r gwaith hybu a hyrwyddo i gorff annibynnol, arbenigol; mi fyddai manteision o fod ar wahân i'r Comisiynydd o ran gallu meithrin perthynas wahanol gyda'r cyrff perthnasol, ac osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Yn amlwg, mi fyddai angen cysylltiadau agos rhwng y 3 chorff – Y Llywodraeth, y Comisiynydd a'r corff newydd – er mwyn cydlynu a sicrhau bod pob un ohonynt, yn ei faes ei hun, yn gweithio tuag at yr un nodau ehangach cyffredin.

Opsiwn 4: gwelwn apêl yr opsiwn hwn yn ogystal o ran cyfuno swyddogaethau mewn llai o fannau gwahanol, er y byddai angen sicrhau, mewn modd strwythurol, na fyddai gwrthdaro buddiannau rhwng yr 'adran' rheoleiddio/cydymffurfio ar y naill law, a'r adran 'hybu a hyrwyddo' ar y llall. Mi allasai fod darbodion maint, a'r cyfle i rannu gwybodaeth ac arbenigedd mewn ffordd fwy hwylus. Ni fyddem yn gweld y model hwn yn arwain o reidrwydd at ddileu swydd Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rhoi proffil defnyddiol iawn i'r rôl ac i'r dyletswyddau.

Beth bynnag fydd y model, cytunwn yn llwyr fod angen i'r ochr reoleiddio lywio i ryw raddau yr ochr hybu, drwy adnabod meysydd ble mae angen cefnogaeth bellach ar sefydliadau er mwyn cydymffurfio â'r disgwyliadau sydd arnynt. Mae UCAC o'r farn y gallai hynny ddigwydd yn hwylus dan opsiynau 3 neu 4 (neu 1, dan yr amodau a ddisgrifir ym mharagraff 65).

Cwestiwn 4 – Rydym wedi seilio ein dewis, sef un corff, ar sail eglurder, cydnawsedd a gwerth am arian. A ydych chi'n cytuno â'n sail resymegol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym wedi rhoi ein dadleuon, â'n rhesymeg gerbron yn yr ateb i'r cwestiwn blaenorol (cwestiwn 3).

Cwestiwn 5 – Pa faterion perthnasol eraill y dylem eu hystyried wrth wneud ein cynnig terfynol ynghylch pa gorff neu gyrff ddylai hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 6 – A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar Ran 1 y Papur Gwyn?

Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd

Cwestiwn 7 – Ym mharagraffau 93–95, rydym wedi nodi rhai gofynion cyffredinol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff. Beth yw eich barn chi am y gofynion cyffredinol hyn, ac a oes yna fesurau monitro a ffrwyno eraill a ddylai fod yn weithredol ar y corff arfaethedig?

Sylwadau ategol

Os mai corff annibynnol (Comisiwn) sydd dan sylw, mae'r rhan fwyaf o'r cynigion hyn yn ymddangos yn rhesymol, a heb fod yn arbennig o ddadleuol.

Byddai UCAC yn tueddu i ffafrio strwythur Bwrdd neu Gomisiwn a Phrif Weithredwr, yn hytrach nag unigolyn gyda bwrdd goruchwylio, er mwyn tynnu ar fwy o arbenigedd, ac i fod yn agosach at fodelau arferol o fewn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Cwestiwn 8 – A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffeirir gennym (Opsiwn 3), sef i sefydlu Comisiwn y Gymraeg i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 9 – Beth yw eich barn chi am y dadansoddiad rydym wedi'i ddarparu sy'n cefnogi ein dewis ni, sef Opsiwn 3? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem eu hystyried wrth wneud unrhyw gynnig terfynol?

--

Cwestiwn 10 – A ydych chi'n credu bod Opsiwn 3 yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn arfaethedig yn ddigonol yng nghyd-destun arfer swyddogaethau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ansicr	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 11 – A oes unrhyw faterion ychwanegol i'r rhai a restrir ym mharagraffau 121–122 y dylem eu hystyried wrth ystyried trefniadau i sefydlu'r Comisiwn arfaethedig?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ansicr	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Dywedir na ragwelir dileu unrhyw swyddi, ond cymerwn y byddai Opsiwn 3 yn golygu dileu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Ni chyfeirir at unrhyw ddarpariaethau fyddai'n berthnasol i sefyllfa o'r fath.

Cwestiwn 12 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i symud y gofyniad ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth ar gyfer y Gymraeg o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r Bil y Gymraeg newydd?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 13 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Cynulliad ar strategaeth y Gymraeg bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae problemau ymarferol gyda'r cynnig hwn, er y deallwn y rhesymeg y tu ôl iddo. Yn sicr mae angen adroddiad llawnach, mwy manwl bob pum mlynedd, ond mi fyddai bylchau o bum mlynedd rhwng adroddiadau'n llawer rhy hir. Yn y cyfamser, bydd angen i'r sawl sy'n gyfrifol am y Strategaeth ac am ei gweithredu, gadw llygad ar gynnydd – o ran sut y gweithredir y Strategaeth, ac o ran ei heffeithiau. Nid unwaith bob pum mlynedd y gwneir hynny, tybiwn, ond yn barhaus. Bydd angen

iddynt allu fod yn hyblyg i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau, i unrhyw dueddiadau newydd neu annisgwyl, ac i wneud yn fawr o unrhyw gyfleoedd.

Felly gofyn digon rhesymol fyddai diweddariad blynyddol o ran:

- sut gafodd y strategaeth ei gweithredu dros y flwyddyn a fu
- beth fu'r canlyniadau (o bosib yn erbyn mesuryddion penodol)
- sut y bwriedir gweithredu'r strategaeth dros y flwyddyn i ddod
- y canlyniadau a ddisgwylir/bwriedir

Mae angen cydbwysedd rhwng yr angen am gynllunio tymor hir (cynllun strategol) a monitro a gweithredu tymor byr (cynllun gweithredu). Mae'r cynllunio tymor hir yn neilltuo o bwysig – ni fydd llwyddiant hebdo – ond rhaid peidio gwneud hynny ar draul gweithredu a monitro tymor byr. Drwy gyfuniad o'r ddau y daw strategaeth effeithiol.

Cwestiwn 14 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun yn nodi sut y bydd yn gweithredu'r strategaeth bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Gweler y sylwadau dan gwestiwn 13 uchod.

Cwestiwn 15 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru geisio cyngor gan y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Os symudir ymlaen â'r cynnig i sefydlu Comisiwn, cytunwn y byddai'n synhwyrol i ddileu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Os mai un o'r opsiynau eraill caiff ei weithredu yn y pen draw, mae'n bosib y byddai achos i'w wneud dros ail-ystyried.

Cwestiwn 16 – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar Ran 2 y Papur Gwyn?

Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

Cwestiwn 17 – Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu model diwygiedig o'r Safonau (Opsiw 2) fel y ffordd orau o sicrhau hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol, gan gynnwys (os yn berthnasol) unrhyw ddiwygiadau pellach yr hoffech eu gweld i'r system bresennol, neu unrhyw ddulliau gweithredu eraill y dylem eu hystyried yn eich barn chi.

Opsiwn 1: Teimla UCAC fod y Papur Gwyn wedi bod yn or-negyddol ynghylch y posibilrwydd o beidio newid. Mae'r system - fel y cydnabu'r ddogfen - prin yn ddeunaw mis oed, ac ond yn dechrau ymsefydlu ac ymwreiddio. Mae pwylllo a rhoi cyfle pellach (cyfnod penodol) i'r gyfundrefn yn opsiwn sy'n werth ei ystyried. Mi fyddai'n osgoi unrhyw fwlch a'r angen am bontio rhwng un gyfundrefn a'r llall, ac yn osgoi'r boen i gyrff sydd newydd fod trwy broses feichus o orfod ail-edrych ar y cwbl eto.

Opsiwn 2: Deallwn yr ysfa i symleiddio trefn y Safonau; mae'n ymddangos i UCAC fel trefn weinyddol drom a hirfaith (o'r gosod cychwynnol i'r ymchwiliadau'n dilyn cwynion); mae'n bosib y gellid lleihau ar y Safonau mewn manau, ond byddem yn rhybuddio rhag rhoi gormod o ryddid i ddibynnu ar 'grebwyll' y cyrff dan sylw; holl bwrpas y Safonau yw eu bod yn glir, yn gytunedig, ac yn orfodol. Mae'r cynnig i wneud defnydd ehangach o godau ymarfer yn un cadarnhaol iawn, ac mae'n werth ystyried rôl canllawiau statudol, er na fyddai UCAC am weld pentyrru haenau ar ben haenau o ofynion statudol. Mae UCAC yn ffafriol iawn i'r cynnig i gynnwys darpariaethau i sicrhau gwelliant dros amser wrth ehangu a datblygu capasiti; ond byddem yn awgrymu adolygu ar ôl 5 mlynedd yn hytrach na 10 sy'n teimlo'n gyfnod llawer rhy hir ac yn awgrymu diffyg brys i wella; mi allai corff fod wedi cynyddu ei gapasiti'n sylweddol – o weithredu'n fwiadus – dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r 'egwyddor gydgyfeirio' yn gwbl gymeradwy ym marn UCAC. Byddai'r gallu i ddechrau gweithredu ar yr opsiwn hwn heb orfod deddfu ymhellach yn fantais aruthrol.

Opsiwn 3: Er bod rhywfaint o rinwedd i'r egwyddor, nid yw'r opsiwn hwn yn ymddangos yn weithredadwy. Mae'r rhinwedd yn deillio o system symlach gyda llai o Safonau a'r rheiny'n rhai mwy cyffredinol; gwelwn anawsterau gyda'r system bresennol sy'n gorfod disgrifio a rhestru pob senario posib, ac sy'n gallu gadael bylchau na fyddai wedi bod yn rhesymol eu rhagweld ar adeg gosod y Safonau (e.e. gwarant i wasanaeth eirioli yn y Gymraeg, gwasanaeth y cyfeirir ato yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg; am na chyfeirir yn benodol at wasanaeth eirioli yn y Safonau ar gyfer Awdurdodau Lleol, nid yw'n glir a yw'r Safonau'n gwarantu'r gwasanaeth yn y Gymraeg ai peidio). Fodd bynnag, ar lefel ymarferol, cytunwn y byddai anawsterau wrth osod y Safonau mewn deddfwriaeth sylfaenol, fel y noda'r Papur Gwyn, gyda'r angen o bosib i amrywio gyda threigl amser. Mi fyddai llunio a chytuno ar yr eithriadau'n waith aruthrol, a'r newidiadau yn sylweddol i gyrff sydd eisoes wedi bod trwy broses drom o osod Safonau.

Opsiwn 4: Ni fyddai UCAC yn ffafrio'r opsiwn hwn; cytunwn â'r dadleuon yn y Papur Gwyn, ac ychwanegwn yn ogystal na fyddem am roi cymaint o rym ag yr awgrymir yn nwylo'r cyrff unigol, gyda dyletswydd (drom) ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb.

Opsiwn 5: Cytuna UCAC ag awgrym rhai rhanddeiliaid y gellid ystyried gosod ambell i hawl gyffredinol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol (e.e. yr hawl i addysg Gymraeg, neu i ofal meithrin yn y Gymraeg) gydag is-ddeddfwriaeth yn pennu'r manylder, gan gynnwys cynnydd dros gyfnodau penodol.

Nid yw pob un o'r opsiynau uchod yn *mutually exclusive* ac mi ellid ystyried cyfuniadau o wahanol elfennau ohonynt. Y prif egwyddorion o safbwynt UCAC yw:

- sicrhau bod hawliau cryf a chlir yn parhau

- bod mecanweithiau penodol i sicrhau gwelliant dros amser
- nad yw'r prosesau eu hunain (nac unrhyw broses o newid) yn or-fiwrocraidd ac yn llyncu gormod o amser ac adnoddau

Cwestiwn 18 – Rydym wedi seilio'r cynnig rydym yn ei ffafrio i ddiwygio'r Safonau (Opsiw 2) ar sail yr eglurder, y capasiti ar gyfer gwella a'r costau newid sy'n gysylltiedig â phob opsiwn (paragraffau 163–165). A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol, gan gynnwys (os yn berthnasol) unrhyw ffactorau eraill y dylem eu hystyried wrth lunio unrhyw gynigion terfynol.

--

Cwestiwn 19 – A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r dosbarthiadau presennol o Safonau, a gwahaniaethu rhwng 'Safonau' (a fyddai'n berthnasol i wasanaethau) a 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol' (a fyddai'n berthnasol i ddyletswyddau corfforaethol)?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Nid yw UCAC wedi bod yn or-hoff o'r dull o gategoreiddio'r Safonau hyd yma; ni theimlwn fod y categorïau yn hunanesboniadol nac yn reddfodol o ran eu rhaniad a'u dosbarthiad. Gallem gytuno felly i broses o ailedrych ar y dosbarthiadau presennol er mwyn sicrhau mwy o eglurder, ar yr amod na fyddai hynny'n broses fyddai'n amharu'n ormodol ar gyrff ble mae'r Safonau eisoes wedi'u gosod.

Cytunwn yn ogystal, bod modd gwahaniaethu rhwng Safonau sy'n rhoi hawliau i ddefnyddwyr ar y naill law, a Safonau sy'n fwy strategol eu natur ar y llall.

Fodd bynnag, ein prif bryder ynghylch y cynnig yn y Papur Gwyn yw faint o rym fyddai y tu ôl i'r Safonau arfaethedig hyn. Cytunwn yn llwyr â'r pwyslais ar 'gefnogi cyrff i ddatblygu'r gallu sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol'; fodd bynnag, ni fyddem am weld hynny'n digwydd ar draul grym gorfodi pan fydd angen hynny. Byddem yn ystyried unrhyw gam i wanhau'r grym gorfodi yn un â'r potensial i fod yn beryglus.

Cwestiwn 20 – A ydych chi o'r farn y dylid cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ansicr	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Ni theimlwn fod digon o fanylder yma i ddod i farn derfynol.

Byddai UCAC yn fwy na pharod i ystyried ac i drafod y mater ymhellach gyda rhagor o wybodaeth a chynigion mwy penodol wrthlaw.

Cwestiwn 21 – Oes yna unrhyw faterion eraill y dylid, yn eich barn chi, eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ansicr	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cymerwn fod materion megis datblygu capasiti a chynllunio gweithluoedd yn faterion sy'n cael eu cynnwys dan y pennawd 'cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith o fewn y gwasanaethau cyhoeddus', ond enwn y ddau yma er mwyn cael sicrwydd, gan eu bod yn faterion mor greiddiol.

Cwestiwn 22 – A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn arfaethedig bwerau cyffredinol i gynnal ymchwiliadau i sut mae cyrff yn cyflawni eu dyletswyddau o ran y Gymraeg, a fyddai'n cynnwys y Safonau a'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn, dim ond bod pwerau gorfodi wrth gefn yn ogystal.

Cwestiwn 23 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Comisiwn arfaethedig fonitro a chefnogi cyrff mewn perthynas â'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol, yn hytrach na'u gorfodi?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	--------------------------	-----------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn â'r cynnig y dylai'r Comisiwn arfaethedig fonitro a chefnogi cyrff mewn perthynas â'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol. Ond ni ddylai hynny fod ar draul cadw pŵer i orfodi os/pan fydd angen. Gweler yr ateb i gwestiwn 19 uchod.

Cwestiwn 24 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi cyfrifoldeb am osod Safonau ar gyrff i Lywodraeth Cymru, p'un ai drwy hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	--------------------------	-----------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn yn llwyr ac yn frwdfrydig â'r angen i symleiddio a chyflymu'r broses o

wneud a gosod Safonau ar gyrff. Fodd bynnag, ni all UCAC gyd-fynd â'r cynigion ar gyfer gwneud hynny.

O safbwynt

- arbenigedd yn y meysydd perthnasol
- y gallu i fod yn effeithlon o ran amser ac adnoddau
- annibyniaeth oddi wrth ddylanwadau gwleidyddol cyfnewidiol

dadleuwn y byddai'r gwaith o lunio'r Safonau (ac unrhyw ymgynghori â'r gyrff perthnasol) yn eistedd orau gyda'r rheoleiddiwr.

Byddai rôl, wrth reswm, gan Lywodraeth Cymru o ran llunio a chyhoeddi'r rheoliadau, a rôl gan y Cynulliad Cenedlaethol i bleidleisio arnynt.

Mae'n debyg mai'r rheoleiddiwr fyddai'r person/corff fwyaf addas i'w gosod wedyn – ar ffurf hysbysiad cydymffurfio, neu ar ffurf arall - ac wrth gwrs, nhw hefyd fyddai'n monitro cydymffurfiaeth ac yn gorfodi.

Cwestiwn 25 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai pob un o'r rheoliadau i wneud Safonau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae gan UCAC amheumon cryf ynghylch y cynnig hwn, ar y sail y gallai ychwanegu cyfnodau sylweddol at yr holl broses, yn gyfan gwbl groes i fwriad y cynigion yn ehangach.

Cwestiwn 26 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Ymchwiliadau Safonau?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Nid oes gan UCAC wrthwynebiad i hyn mewn egwyddor.

Cwestiwn 27 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid rhoi pwerau i gyhoeddi codau ymarfer neu ganllawiau mewn perthynas â'r Safonau i Lywodraeth Cymru?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn â'r cynnig i wneud defnydd o godau ymarfer mewn perthynas â'r Safonau – teimlwn y gallai hynny gynnig goleuni i nifer o gyrff ar sut i fynd ati i'w gweithredu, ac mae'n cynnig cyfle i rannu arfer dda.

Fodd bynnag, anghytunwn yn gryf iawn â'r cynnig mai Llywodraeth Cymru fyddai'n eu llunio. Yn ddiau, gyda'r rheoleiddiwr y mae'r arbenigedd yn y maes.

Cwestiwn 28 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i osod Safonau ar yr holl gyrff mewn sector yn uniongyrchol drwy reoliadau, heb fod angen hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall gyffelyb?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol, gan gynnwys eich barn ar y materion y dylem eu hystyried wrth lunio Safonau i'w gosod yn uniongyrchol ar gyrff o fewn sector, p'un a ddylai cyrff unigol barhau â'r hawl i herio Safon sydd wedi'i gosod arnynt, a ph'un a ddylid cael proses ymgynghori fwy trwyadl.

Cwestiwn 29 – Pa ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth neu pa weithdrefn y dylid ei dilyn er mwyn sicrhau bod y broses o osod Safonau ar Lywodraeth Cymru yn deg a thryloyw?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 30 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid gorfod delio â chwynion drwy weithdrefn gwyno'r corff perthnasol cyn y caiff y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg, ymchwilio i fethiant honedig?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r mater yn un fwy cymhleth nag y mae'n ymddangos, ac nid yw'r atebion yn rhwydd.

Deliwn yn gyntaf â'r dull o wneud cwyn, o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth. Cytunwn ei fod yn gyffredinol arferol bod gofyniad i ddisbyddu prosesau lleol cyn mynd â'r gwên i lefel uwch. Fodd bynnag, teimlwn yn achos cwynion ynghylch y Gymraeg bod ffactorau cymdeithasol-ddiwylliannol sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd iawn i wneud cwyn yn uniongyrchol i gorff ynghylch ei (ddiffyg) defnydd o'r Gymraeg. Mae hynny'n arbennig o wir mewn perthynas â gwasanaethau critigol (e.e. meddygol), ble mae'r defnyddiwr yn llwyr ddibynnol ar y darparwr, ac nad yw am godi gwrychyn, rhag peidio derbyn gwasanaeth, neu dderbyn triniaeth lai ffafriol. Credwn yn gryf, yn ogystal, bod angen i'r broses o wneud cwyn fod mor glir a syml â phosib, waeth pwy yw'r corff sy'n destun y gwên.

Trown wedyn at y dull o ymdrin â chwên. Cytunwn yn llwyr fod y broses o gynnal ymchwiliadau ar hyn o bryd yn rhy hirwyntog, ac o'r herwydd, yn rhy drwm ar adnoddau (y gellid eu defnyddio'n well), ac yn rhy araf o ran unioni'r sefyllfa y cwynir amdani. Felly, cefnoga UCAC yr awydd i ddiwygio'r drefn bresennol. Ni theimlwn fod

bob un cwyn yn haeddu'r un lefel o fanylder o ran ymdriniaeth, ac y dylai bod modd gwahaniaethu rhwng cwynion yn sgil lefel eu difrifoldeb, ac o bosib, amllder yr un math o gwynion yn erbyn yr un corff. Mae angen camau o ddifrifoldeb, a throthwyon er mwyn pasio i'r lefel nesaf.

Awgrymwn fod cyfaddawd yn bosib, sef:

- 1) bod anogaeth i fynd â'r gwŷn yn y lle cyntaf at y corff sy'n destun cwyn; gallai'r rheoleiddiwr ddarparu cymorth i'r unigolyn i wneud hyn petai angen; os na unionir y sefyllfa, neu os nad yw'r ymateb yn foddhaol mewn unrhyw ffordd, cyfeirir y gwŷn at y rheoleiddiwr
- 2) bod hawl, er hynny, i gyfeirio'r gwŷn yn uniongyrchol at y rheoleiddiwr, a bod y rheoleiddiwr yn llywio'r gwŷn drwy broses gwyno'r corff perthnasol; os na unionir y sefyllfa, neu os nad yw'r ymateb yn foddhaol mewn unrhyw ffordd, cyfeirir y gwŷn at y rheoleiddiwr am ymchwiliad

Yn y naill achos a'r llall, bydd angen ystyriaeth i'r prosesau sydd ynghlwm wrth ymchwiliad, i sicrhau eu bod yn gymesur, gan gynnwys sylw i wahanol lefelau o brosesau yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos.

Cwestiwn 31 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig fod yn rhaid i gyrff gadw at weithdrefn gwyno sydd wedi'i chymeradwyo, fel y Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 32 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond os yw o'r farn fod yr achos honedig o dorri Safon neu weithdrefn gwyno yn un ddifrifol y dylai'r Comisiwn arfaethedig gael cymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas â chŵyn?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar ein diffiniad o 'achos difrifol' ym mharagraff 219.

Gweler ein sylwadau dan gwestiwn 30 uchod.

Cwestiwn 33 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ganiatáu i'r Comisiwn arfaethedig gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 34 – A ydych chi'n cytuno fod y camau gweithredu a ddisgrifir ym mharagraff 225 yn darparu amrywiaeth effeithiol o gamau gorfodi?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol, gan gynnwys unrhyw syniadau ynghylch camau gorfodi eraill a wrthodwyd neu nad ydynt wedi cael eu hystyried yn y Papur Gwyn.

Ychwanegwn, efallai dan bwynt d) ii, y posibilrwydd o roi cymorth a/neu gyngor ynghylch sut i sicrhau gweithdrefnau neu gapasiti priodol yn y dyfodol er mwyn osgoi ailadrodd y sefyllfa.

Cwestiwn 35 – Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd bwerau i osod dirwy sifil o hyd at £5,000 ac, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn am orchymyn llys i'w gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid cadw'r pwerau hyn?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol, gan gynnwys unrhyw sylwadau ynghylch y ddirwy sifil uchaf y dylai'r Comisiwn arfaethedig allu ei gosod (os o gwbl).

Cwestiwn 36 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw rôl y Tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 37 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Tribiwnlys hefyd ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn y dylai'r Tribiwnlys ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad i osod Safonau ar gorff, ond yr ydym wedi datgan uchod yng nghwestiwn 24, nad yw UCAC yn ffafrio sefyllfa ble mae'r Llywodraeth sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o osod y Safonau.

Cwestiwn 38 – Rydyn ni'n cynnig cyflwyno cam cyntaf gorfodol ar gyfer y Tribiwnlys mewn perthynas ag apelau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi Safonau. Byddai'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tribiwnlys roi caniatâd ar y sail bod siawns rhesymol y bydd y cais yn llwyddo neu pan fo rheswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 39 – A ydych chi o'r farn y dylai'r cam cyntaf gorfodol arfaethedig fod yn gymwys i apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ansicr	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn â'r egwyddor, ond ailadroddwn ein pryder ynghylch lleoli'r cyfrifoldeb dros osod safonau gyda Llywodraeth Cymru.

Cwestiwn 40 – A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 3 y Papur Gwyn?

Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg

Cwestiwn 41 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r cyfyngiadau yn y Mesur fel bod Llywodraeth Cymru'n meddu ar y pŵer i wneud Safonau'n gymwys i unrhyw gorff o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 42 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu cyflenwi i'w cwsmeriaid y dylai busnesau yn y sector preifat fod yn agored i orfod cydymffurfio â Safonau?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol, gan gynnwys eich barn ynghylch unrhyw gyfyngiadau y dylid eu rhoi ar y pwerau i osod Safonau ar fusnesau preifat.

--

Cwestiwn 43 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond fel rhan o becyn ehangach o weithgarwch sy'n hybu'r Gymraeg ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ohoni y dylid gosod Safonau ar fusnesau preifat?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 44 – Os rhoddir pwerau i Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar unrhyw gorff o fewn cymhwysedd y Cynulliad, a ydych chi o'r farn y dylai Safonau gael eu gosod ar unrhyw gorff neu sector nad yw ar hyn o bryd o fewn cwmpas deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ansicr	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae llawer fawr iawn o gyrff yn rhan o fywydau pobl Cymru, pobl sy'n dymuno byw eu bywydau drwy'r Gymraeg gymaint â phosib.

Mae nifer fawr a chynyddol o'r rhain yn y sector breifat e.e. cwmnïoedd ffonau symudol.

Mae categori arall hefyd sef sefydliadau cyhoeddus (a lled-gyhoeddus) Prydeinig neu sefydliadau y Goron y mae'n ofynnol ymwneud â nhw ar wahanol adegau ym mywydau unigolion, neu yn sgil gofynion proffesiynol pobl. Dyma rai enghreifftiau:

- DBS (Disclosure and Barring Service)
- UCAS
- Student Loans Company
- Teachers' Pensions
- Universities Superannuation Scheme
- General Register Office
- HM Passport Office
- Cyrff sy'n ymwneud â budd-daliadau

Mae'r cyflwyniad i'r Papur Gwyn yn cyfeirio (ac yn wir yn gresynu) at y diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg gyda chyrrff fel y DVLA a'r Asiantaeth Safonau Gyrru. Ond os teipiwch chi'r naill neu'r llall i Google, a chlicio oddi yno i'r dudalen we, ni welwch unrhyw beth sy'n awgrymu bod gair o Gymraeg yn unrhyw le ar y wefan, heb sôn am fod modd ymwneud â'r corff drwy'r Gymraeg a chael gwasanaeth Cymraeg.

Mae ffordd bell iawn i fynd o ran sicrhau bod cyrrff Cymreig a Phrydeinig fel ei gilydd yn darparu gwasanaethau Cymraeg, a bod y cynnig yn un rhagweithiol, nad oes angen ei fynnu, neu nad oes angen bod â gwybodaeth arbenigol i gael hyd iddo.

Cwestiwn 45 – A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 4 y Papur Gwyn?

Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion

Cwestiwn 46 – Rydym wedi asesu effaith ein cynigion ar gydraddoldeb, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'r Gymraeg. A oes gennych chi sylwadau ar unrhyw un o'r asesiadau hyn?

Cwestiwn 47 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn ein Papur Gwyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 48 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid yr opsiynau arfaethedig:

- i) fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol


Mae gan UCAC bryder ynghylch ieithwedd deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg, ac yn benodol yr egwyddor o 'beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.

Teimlwn ei fod yn bryd i ni symud ymlaen o'r isafswm hwnnw, i ddeddfwriaeth sy'n cydnabod sefyllfa leiafrifol y Gymraeg a realiti ymarferol y sefyllfa honno, sef bod y Gymraeg dan anfantais sylweddol iawn, yn bron a bod pob cyd-destun, a bod angen gweithredu i unioni hynny. Yn fyr, nid yw'r cae yn un gwastad, ac nid yw 'peidio trin yn llai ffafriol' yn creu gwastadedd.

Mae angen creu cyd-destun deddfwriaethol ble mae modd rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, rhoi fwy o hwb iddi nag i'r Saesneg, a chreu rhagdybiaeth o'i phlaid mewn rhai cyd-destunau penodol.

Dim ond drwy greu cyd-destun o'r fath y gellid creu unrhyw beth tebyg i gae gwastad.

Atodwn lun i ddarlunio'r pwynt:



Mawr obeithiwn, wrth symud ymlaen at Bil drafft, y cymerir hyn i ystyriaeth.

Cwestiwn 49 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

1. Mae hi wedi bod yn destun pryder i UCAC o'r cychwyn mai Llywodraeth Cymru sy'n penodi Comisiynydd y Gymraeg. Rydym yn gryf o'r farn mai'r Cynulliad fyddai'r corff fwyaf priodol i wneud penodiad o'r fath, ac i'r Cynulliad hefyd y dylai fod yn atebol. Byddai hyn yr un mor wir a pherthnasol yng nghyd-destun Comisiwn.
2. Rhaid peidio gadael naill ochr statws a rôl y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru, er ein bod yn cydnabod nad tesun deddfwriaeth fyddai hynny. Mae angen sicrhau fod llais a chynrychiolaeth gref, a lefelau staffio digonol, gan yr Adran/Is-adran sy'n delio â'r Gymraeg, ac yn ychwanegol at hynny fod y Gymraeg yn brif ystyriaeth ar draws pob Adran a phortffolio, a hynny mewn modd gwirioneddol ystyrllon, ac nid adendwm symbolaidd. Rhaid felly wrth swyddogion ag arbenigedd a dealltwriaeth briodol ar draws y Llywodraeth, ac sydd â lefel briodol o awdurdod.
3. Ni fyddai UCAC am weld dargyfeirio unrhyw egni ac adnoddau oddi wrth weithredu strategaeth 2050, ac yn arbennig felly ym maes addysg, wrth fwrw ymlaen â'r camau nesaf mewn perthynas â'r Papur Gwyn.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

